

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION CHWEFROR 20, 2018

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Brithdir  
Nos Fawrth, Chwefror 20, 2018 am 7:30 o'r gloch.**

**Preseanol** Cyngorwyr: Peredur Jenkins, Rhun Prys Jones, Mordaf Roberts, Barry Jones, Meurig Ashton, Geraint Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

Yn absenoldeb Llion Rh. Williams (Cadeirydd), cadeirwyd y cyfarfod gan Rhun Prys Jones.

**1. Croeso'r Cadeirydd** Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

**2. Ymddiheuriadau:** Llion Rh. Williams, Hugh A. Evans, Emlyn Roberts, Gerallt Griffith.

**3. Datgan diddordeb.**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 16, 2018**

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Ionawr 16, 2018**

Eitem 9.ch. Anfonwyd llythyr (19/1/2018) i Peiriannydd Ardal Meirionnydd yn rhoi gwybod nid yw biniau halen wedi cael eu llenwi yn Abergeirw er i Priffyrdd dweud maent wedi eu llenwi. Na symud y bin yn Drwsynant. Gofynnwyd beth yw'r drefn i ail lenwi biniau, ac oes sustem sydd yn adrodd yn ôl fod y biniau wedi'i llenwi. Oherwydd bod y drefn ddim yn gweithio awgrymwyd ni ddylid codi tâl ar y Cyngor Cymuned i ail lenwi'r biniau.

Llythyr ateb (25/1/2018) yn rhoi gwybod mae ein cais i lenwi'r biniau wedi ei anfon ymlaen at yr Uned Waith. Mae wedi gofyn i'r Uned am dystiolaeth eu bod wedi llenwi'r biniau er mwyn cadarnhau gyda ni. Mae ceisiadau i lenwi biniau ei hanfon at: [PriffyrddMeirionnydd@gwynedd.llyw.cymru](mailto:PriffyrddMeirionnydd@gwynedd.llyw.cymru)

Galwad ffôn (1/2/2018) oddi wrth Ms Susan J. Isaac, Abergeirw Bach, yn rhoi gwybod nid yw'r bin halen wedi cael ei lenwi. Rhoddwyd gwybod i Priffyrdd i lenwi'r bin a'r bin wrth Fferm Hendre, ac i lenwi yr holl finiau yn Abergeirw.

Dyweddodd Ms Isaac os ni fydd y bin yn cael ei lenwi mi fydd yn symud y bin i le mwy addas iddi hi ac am lenwi'r bin gyda halen bydd hi'n ei brynu. Rhoddwyd gwybod i Peredur Jenkins.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION CHWEFROR 20, 2018

Galwad ffôn (8/2/2018) oddi wrth Ms Susan J. Isaac yn rhoi gwybod mae biniau halen wedi cael eu llenwi ond nid bin ar dop y rhiw wrth Abergeirw Bach. Rhoddwyd gwybod i Priffyrdd. Llythyr (9/2/2018) oddi wrth y Priffyrdd yn cadarnhau hyn.

Penderfynwyd i Peredur Jenkins rhoi gwybod i Pryffyrdd nid oes halen yn y bin ar dop y rhiw wrth Abergeirw Bach er i Priffyrdd ddweud bod y bin wedi ei llenwi.

Eitem 5, Eitem 5, Eitem 10.a.4. Anfonodd Peredur Jenkins llythyr (31/1/2018) gydag wyth llun i Priffyrdd yn dangos diffygion ar ffordd Glanwnion - Dolfeili, Rhydymain.

Eitem 8.f. Anfonwyd llythyr (3/2/2018) i Un Llais Cymru yn gofyn am gopi o llythyr a manyldeb maent wedi eu paratoi i benodi Archwilydd Mewnol.

Derbyniwyd y wybodaeth gan Un Llais Cymru (6/2/2018).

Wedi gwneud ymholiadau gydag Uned Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd, derbyniwyd llythyr (8/2/2018) ganddynt yn rhoi gwybod maent yn fodlon i fod ein Harchwiliwr Mewnol. Y ffi maent am godi yn dibynnu ar swmp o waith bydd angen ei wneud. Os rydym am eu penodi, maent angen llythyr penodi/ymrwymiad.

Penderfynwyd penodi Uned Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd i fod ein Harchwiliwr Mewnol.

Eitem 10.c. Llythyr ateb (7/2/2018) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod mae rhai ffyrdd wedi cael eu hysgubo a bydd eraill yn cael eu hysgubo dros yr wythnosau nesaf.

## **6. Gohebiaeth**

a. Galwad ffôn (18/1/2018) oddi wrth drigolyn yn Abergeirw yn dweud nid yw Priffyrdd wedi llenwi'r biniau halen yn yr ardal. Rhoddwyd gwybod i Priffyrdd.

b. Llythyr (18/1/2018) oddi wrth Cadeirydd Gwyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018 yn rhoi gwybod mae Gwyl Genedlaethol Gwyl Cerdd Dant Cymru yn ymweld â Blaenau Ffestiniog a'r Fro yn Nhachwedd 2018. Maent angen cymorth ariannol.

c. Llythyr (23/1/2018) oddi wrth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gyda phedwar copi o ddogfennau ymwneud a 'Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd - Adroddiad Cynigion Drafft'. Os mae sylwadau ar y Drafft bydd y Comisiwn eu hangen cyn Ebrill 23, 2018.

ch. Holiadur Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gynllun llesiant Gwynedd a Môn i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliant. Maent angen gwybod beth rydym ni yn meddwl o'r Cynllun Llesiant Drafft. Maent angen gwybod cyn Mawrth 30, 2018. Amgáu mae'r Drafft.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION CHWEFROR 20, 2018

d. Llythyr (26/1/2018) oddi wrth Swyddog Adfywio Bro, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae'r Cyngor gydag arian, trwy Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig, i sicrhau fod gan drigolion fynediad at dechnoleg newydd a'r we. Os mae canolfannau cymunedol yn awyddus cael y Technoleg Gwybodaeth mewn llyfod cyhoeddus mae'r Cyngor eisiau gwybod cyn Chwefror 9, 2018.

dd. Llythyr (1/2/2018) oddi wrth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Cyngor Gwynedd. I sicrhau bod oedolion yn cael gwasanaethau lleol mae pum Tîm Adnoddau Cymunedol wedi cael eu sefydlu ar draws y sir er budd y bobl. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys nyrsys, therapyddion, galwedigaethol, ffisiotherapyddion, dietegyddion. Amgáu mae poster gyda gwybodaeth am y timau'r ardal, a'r manylion cyswllt perthnasol.

e. Llythyr (31/1/2018) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd rhwystr dros dro ar lwybr ger yr afon yn Rhydymain.

f. Llythyr (31/1/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar ddydd Mawrth, Chwefror 20, 2018 am 7.00yh. Bydd cynrychiolydd o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn bresennol. Amgáu mae Agenda, a Chofnodion cyfarfod Tachwedd 28, 2017.

ff. Llythyr (20/2/2018) oddi wrth Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth. Maent angen cymorth ariannol.

g. Llythyr (3/2/2018) oddi wrth Clerc Cyngor Cymuned Llandwrog yn rhoi gwybod mae'n **orfodol** o Ebrill 2018 i dalu rhai lwfansau i aelodau. Mae Panel Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau wedi bandio cynghorau cymuned a thref i bedwar 'band'. Mae wedi gofyn i Un Llais Cymru os oes hawl gan Aelodau i wrthod y lwfansau.

O ddarllen yr adroddiad mae disgwyl i'r Cyngor dalu'r lwfansau gan fod angen i aelodau sylweddoli nad gwirfoddolwyr yw aelodau. Gweler para 13.6 "Mae'r Panel o'r farn nad yw Cynghorwyr Tref a Chymuned yn wirfoddolwyr gan eu bod, yn dilyn y broses ddemocrataidd, wedi derbyn cyfrifoldebau ffurfiol a'u bod i gyd yn wynebu rhywfaint o atebolrwydd, mewn perthynas â swyddogaethau gan y Cyngor y maent yn eu rhedeg".

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Cais cynllunio NP5/54/558. Trosi sgubor yn llety gwyliau a gosod uned trin carthion. Ysgubor yn Bryn Blew, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (1/2/2018).

b. Llythyr (24/1/2018) yn rhoi gwybod mae Cynllun Datblygu Lleol Eryri diwygiedig 2016-2031 wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru at ddibenion Archwiliad annibynnol. Mae'r dogfennau ar gael ar <http://www.eryri.llyw.cymru/planning/planning-policy/ldp-revision?name> neu yn llyfrgelloedd cyhoeddus

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION CHWEFROR 20, 2018

c. Galwad ffôn (9/2/2018) oddi wrth Meithrinfa Seren Fach yn holi beth yw'r diweddaraf ynglŷn cael coed afal. Rhoddwyd gwybod i'r Parc.

**8. Materion Ariannol**

a. Llythyr (16/12/2016) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. 'Gwariant Adran 137': Y terfyn ar gyfer 2017-18. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18 £7.57, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn  $£7.57 \times 601 = £4,549.57$ .

b. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth ariannol 2017 / 2018:

Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Marie Curie, Calonnau Cymru, Dawns i Bawb, Theatr Bara Caws, Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 3-11 Awst 2018, Y Groes Goch Brydeinig, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, Neuadd Rhydymain (defibrillator), Tîm Achub 'Y Dydd' (penderfynwyd rhoi £50 pryd fydd ei angen), Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth, Gwyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018.

Penderfynwyd rhoi arian i sefydliadau canlynol:

Neuadd Brithdir: £500.00

Neuadd Rhyd y Gorlan: £500.00

Neuadd Llanfachreth: £500.00

Neuadd Rhydymain: £500.00

Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau: £200.00

Eisteddfod Llanfachreth: £200.00

Llên y Llannau: £50.00

Ambiwylans Awyr Cymru: £200

Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd: £250

Gwyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018: £100

Cyfanswm = £3,000.00

Penderfynwyd rhoi £50 i Tîm Achub 'Y Dydd' pryd fydd ei angen.

Penderfynwyd cael fwy o wybodaeth am y 'defibrillator' cyn cyfranu i Neuadd Rhydymain y costau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION CHWEFROR 20, 2018

c. Llythyr (22/1/2018) oddi wrth Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Meirionnydd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd ad-daliad at lwybrau cyhoeddus yn 2018/19 yn £490.30, fel yr oedd yn 2017/18. Maent angen gwybod cyn Chwefror 16 os yr ydym yn dymuno parhau i fod yn rhan o'r trefniant.

Rhodddwyd gwybod ein dymuniad i barhau fod yn rhan o'r trefniant ad-daliad at lwybrau cyhoeddus (14/2/2018).

ch. Llythyr (8/2/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud. Amgáu mae ffurflen yn gwahodd y Cyngor i adnewyddu aelodaeth ag Un Llais Cymru am 2018 / 2019. Tâl Aelodaeth yw £126.

Penderfynwyd talu'r tâl aelodaeth.

d. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Ionawr 2018: £1,136.76.

dd. Balans yn y banc ar 29 Ionawr 2018: £6,841.24.

### **9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins**

Penderfynwyd gwneud ymholiadau gyda Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd i gael gwybod pryd bydd Ffordd Lefel yn cael ei hagor wedi iddi gael ei chau oherwydd diffygion yn y wal cynnal. Mae ffordd arall ar gael (R14) ond mae honno wedi cael ei chau gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

### **10. Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall.

Llofnod:

Dyddiad:

-----